Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Rhondda Cynon Taf

# Y Gronfa Ffyniant Gyffredin
# Grant Ehangu Busnes

## Canllawiau i ymgeiswyr

Bwriad y Cyngor yw sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel a'i fod yn rhoi gwybod i chi sut mae'n defnyddio'ch gwybodaeth.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd.

RHONDDA CYNON TAF

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

POWERED BY LEVELLING UP

**GRANT EHANGU BUSNES**
**NODYN CANLLAW**

## 1. PWRPAS Y GRANT

Nod y Grant Ehangu Busnes yw cefnogi twf busnesau lleol cynaliadwy ledled Rhondda Cynon Taf, a hynny drwy fuddsoddi mewn busnesau sy'n cyfrannu at greu economi lleol bywiog a chryf. Mae modd iddo ddarparu cymorth ariannol i fusnesau, gan gynnwys;

- Busnesau newydd (llai na 12 mis oed)
- Busnesau presennol
- Mentrau/busnesau preifat a chymdeithasol

Mae modd i'r Grant gefnogi busnesau gyda;

- **Cychwyn busnes**
- **Ehangu a thyfu**
- **Amrywio** i farchnadoedd, contractau neu gwsmeriaid newydd
- **Arloesedd** drwy gyflwyno technoleg arloesol newydd.
- **Cynaliadwyedd a chydnerthedd** gan gynnwys mentrau sy'n darparu buddion mesuradwy o ran effeithlonrwydd ynni / lleihau carbon

## 2. LEFELAU'R GRANT

- **Cyfradd y grant**
  Uchafswm o gyfraniad o 75% tuag at gostau prosiect cymwys (ac eithrio TAW).

- **Swm y grant**

| Busnesau sydd wedi'u lleoli | Lleiafswm y Grant | Uchafswm y Grant |
|---|---|---|
| Adeiladau Masnachol | £2,000 | £15,000 |
| Adeiladau Preswyl | £1,000 | £2,000 |

## 3. PWY SY'N GYMWYS I WNEUD CAIS?

**YN GYMWYS:**

- ☑ Os ydych chi'n gweithredu yn ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- ☑ Os ydych chi'n 18 oed neu'n hŷn
- ☑ Os ydych chi'n fusnes bach/canolig (hyd at 250 o weithwyr a throsiant blynyddol o lai na €50 miliwn)
- ☑ Os yn/am fod yn fenter amser llawn (cyflogi un swydd sy'n gyfwerth ag amser llawn). Bydd hyn yn seiliedig ar oriau safonol amser llawn eich busnes.
- ☑ Os byddwch chi'n masnachu o fewn 3 mis i unrhyw gynnig grant, os yw'n fusnes newydd
- ☑ Os ydych chi'n talu Treth y Cyngor neu Gyfraddau Ardrethi Annomestig (gan gynnwys rhyddhad) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- ☑ Prydles/trwydded gya 3 blynedd heb ddod i ben (os yw'n gweithredu o eiddo masnachol)
- ☑ Os oes/bydd gyda chi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus
- ☑ Os oes/bydd gyda chi'r caniatâd cywir i weithredu busnes/ymgymryd â'r prosiect o'r annedd masnachol neu gyfeiriad cartref (e.e. caniatâd landlord, caniatâd cynllunio, dosbarthiad defnydd cyfreithlon, caniatâd hysbysu, ac ati)

I gael rhagor o wybodaeth am ganiatâd, cliciwch ar y dolenni isod;
Cynllunio - Cyflwyno cais Rheoli Adeiladu Adeiladau rhestredig
Gwasanaethau Cynllunio ☏01443 281134 neu
✉GwasanaethauCynllunio@rctcbc.gov.uk

Trwyddedau a Hawlenni

**DDIM YN GYMWYS:**

- ☒ Landlordiaid eiddo masnachol nad ydynt hefyd yn fusnes tenant
- ☒ Datblygwyr eiddo
- ☒ Busnesau Air BNB
- ☒ Perfformwyr/Artistiaid adloniant unigol
- ☒ Busnesau rhan amser, tymhorol neu hobi
- ☒ Busnesau profi masnach
- ☒ Gweithwyr hunangyflogedig o fewn busnesau eraill
- ☒ Busnesau sy'n cynnig triniaethau harddwch nad ydyn nhw'n rhai llawfeddygol a / neu sydd heb eu rheoleiddio
- ☒ Busnesau sy'n ymgymryd ag unrhyw weithgarwch, a allai yn ein barn ni, roi enw drwg i'r Cyngor

**Nid yw'r rhestr yma yn gynhwysfawr a chaiff cymhwysedd ei bennu ar sail achos wrth achos.**

## 4. BETH Y GALL Y GRANT GEFNOGI?

**IE:**

- ☑ Prynu offer
- ☑ Prynu offer ac adnoddau
- ☑ Prynu caledwaith arbenigol
- ☑ Gwaith adeiladu, megis gwaith ail-gyflunio (mewn eiddo masnachol yn unig a ble mae achos clir ar gyfer gwella cynhyrchiant a thwf)
- ☑ Datblygu gwefannau newydd proffesiynol
- ☑ Mesurau ynni effeithlon / lleihau carbon (fel sydd wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar Dystysgrif Perfformiad Ynni'r eiddo)

**NA:**

- ☒ Costau refeniw (e.e. rhent, cyfraddau, yswiriannau, cyflogau, llogi, hyfforddiant, meddalwedd a thanysgrifiadau)
- ☒ Cynnal a chadw adeiladau / costau atgyweirio
- ☒ Amnewid hen offer, gan gynnwys TGCh
- ☒ Cyfleustodau / costau gosod gwasanaethau
- ☒ Costau ymgynghori allanol, er enghraifft, cysylltiadau cyhoeddus, marchnata, cyfreithiol neu ariannol
- ☒ Costau sy'n ymwneud â gweithdrefnau statudol / digwyddiadau annisgwyl
- ☒ Deunyddiau adeiladu yn unig – rhaid i'r costau gynnwys cyflenwi a gosod
- ☒ Offer safon uchel / eitemau drud, diangen oni bai fod cysylltiad uniongyrchol â'r gweithgaredd busnes
- ☒ Eitemau i'w hurbwrcasu / trefniadau prydles neu gydag arian parod
- ☒ Costau ble rydych chi'n ymgeisydd a chyflenwr
- ☒ Prynu cerbydau, eiddo, ffioedd a threthi cysylltiedig
- ☒ Prynu nwyddau/stoc at ddibenion ail-werthu neu rentu
- ☒ Costau amrywiol ar gyfer eitemau sydd werthu £50 neu lai
- ☒ Eitemau o dan £50 ac eitemau y byddai disgwyl i fusnes dalu amdanyn nhw o'i lif arian ei hun fel treuliau hanfodol, er enghraifft, offer swyddfa annibynnol ar gyfer dechreuwyr newydd
- ☒ Costau ôl-weithredol gan gynnwys blaendaliadau (mae modd eu had-dalu neu beidio)

**Nid yw'r rhestr yma yn gynhwysfawr a chaiff cymhwysedd ei bennu ar sail achos wrth achos.**

## 5. RHEOLI CYMHORTHDAL – CYMORTH ARIANNOL LLEIAF

O dan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022, cymhorthdal yw pan fo awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth i fusnes sy'n rhoi mantais economaidd iddyn nhw, sy'n golygu nad oedd cymorth cyfatebol ar delerau masnachol yn gallu cael ei sicrhau.

Cynigir cymorth grant a ddarperir gan y Grant Ehangu Busnes o dan Gymorth Ariannol Lleiaf. Mae gan Gymorth Ariannol Lleiaf drothwy ariannol sy'n golygu does dim modd i unrhyw dderbynnydd dderbyn mwy na £315,000 dros y cyfnod cymwys o dan adran 36(1) o Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Dylai'r canlynol gael eu hystyried wrth gyfrifo nifer y Cymorth Ariannol Lleiaf y mae eich busnes wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol:

- Cymorth Ariannol Lleiaf arall
- Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyhoeddus
- Cymorth a roddir o dan reoliadau cymorth gwladwriaethol yr UE de minimis cyn diwedd y cyfnod gweithredu, sef 31 Rhagfyr 2020 a
- Cymorthdaliadau a roddir fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE cyn i'r adran yma o'r Ddeddf ddod i rym.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd gofyn i chi gadarnhau yn ysgrifenedig na fydd y cynnig grant yn fwy na throthwy Cymorth Ariannol Lleiaf eich sefydliad o £315,000.

Os ydych chi'n ansicr p'un a yw unrhyw gymorth blaenorol rydych chi wedi'i dderbyn yn cyfrif fel Cymorth Ariannol Lleiaf, cysylltwch â'r sefydliad a'i darparodd i chi.

## 6. PRYD YDW I'N CAEL GWNEUD CAIS?

Mae'r Grant yn gweithredu ar sail rhaglen dreigl ac nis oes unrhyw gylchoedd bidio penodol ar hyn o bryd.

Does dim sicrwydd y bydd pob cais yn llwyddiannus. Caiff cynigion eu hasesu ar sail y cyntaf i'r felin, yn ddibynnol ar gymhwysedd a'r cyllid sy'n weddill.

Ein nod yw cynorthwyo cymaint o fusnesau â phosibl. Oherwydd y galw mawr am y Grant yma a chyllideb gyfyngedig, rydyn ni'n cadw'r hawl i beidio â gwahodd ceisiadau sydd wedi'u hailgyflwyno gan yr un busnes.

## 7. SUT YDW I'N CYFLWYNO CAIS?

**Cam 1 – Mynegi Diddordeb**

- Llenwch ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb
- Os ydych yn gwneud cais am fusnes sy'n gweithredu o gyfeiriad masnachol, atodwch gopi o'ch brydles os gwelwch yn dda.
- Os ydych yn gwneud cais am fusnes sy'n gweithredu o gyfeiriad preswyl, dylech atodi copi o'ch bil Treth Gyngor diweddaraf.
- E-bostiwch y ffurflen a'r brydles/ bil Treth Gyngor i adfywio@rctcbc.gov.uk
- Sylwch nad yw cyflwyno ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb ddim yn warant y cewch eich gwahodd i gyflwyno cais, neu y bydd unrhyw gais dilynol yn llwyddiannus.

**Cam 2 – Cais Cyflawn**

- **Os** yw'ch Mynegiant o Ddiddordeb yn gymwys, byddwn ni'n eich gwahodd i gyflwyno cais.
- **Bydd angen i chi ddarparu:**
- Ffurflen gais wedi'i llenwi a'i harwyddo'n llawn
- Prydles 3 blynedd wedi'i harwyddo (eiddo masnachol)
- Bil Treth y Cyngor yn enw'r ymgeisydd (eiddo preswyl)
- 2 ddyfynbris cymharol ar gyfer pob elfen o wariant cymwys
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n dangos enw a chyfeiriad y busnes
- Strwythur Staff
- Tystiolaeth bod unrhyw gydsyniadau statudol angenrheidiol wedi cael eu cymeradwyo
- Unrhyw wybodaeth ategol arall a nodir yn y gwahoddiad

Cyflwynwch eich ffurflen gais a'r holl wybodaeth ategol ar yr un pryd.

## 8. Y GYMRAEG

Bydd angen i chi egluro sut bydd eich prosiect / busnes yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.

## 9. NEWID YN YR HINSAWDD / LLEIHAU CARBON

Mae Strategaeth "Hinsawdd Ystyriol" Cyngor Rhondda Cynon Taf yn nodi’r ymrwymiad i wneud Rhondda Cynon Taf yn garbon niwtral erbyn 2030. Bydd angen i chi egluro'r mesurau rydych chi'n eu rhoi ar waith i leihau eich allyriadau carbon.

## 10. SUT BYDD FY NGHAIS YN CAEL EI BROSESU?

Byddwn ni'n dod i benderfyniad ar geisiadau yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi wedi'i darparu yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig â gwiriadau gwybodaeth a gaiff eu cynnal drwy ffynonellau eraill. Efallai byddwn ni'n gofyn am ragor o wybodaeth i gefnogi eich cais.

Os yw unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth rydych chi'n ei darparu yn annigonol, fyddwn ni ddim yn prosesu'r cais a bydd yn cael ei wrthod.

Byddwch chi'n derbyn cadarnhad e-bost pan fydd gyda ni'n holl wybodaeth sydd ei hangen arnon ni a phan fyddwn ni'n barod i wneud penderfyniad am eich cais. Fel arfer, dylech chi ganiatáu cyfnod o hyd at 4 wythnos o'r dyddiad cadarnhau i benderfyniad gael ei wneud.

## 11. SUT BYDDA I'N CAEL GWYBOD CANLYNIAD FY NGHAIS?

Os caiff eich prosiect ei gadarnhau;

- Byddwch chi'n derbyn llythyr yn gofyn i chi gadarnhau na fydd y cynnig grant yn fwy na'ch trothwy Cymorth Ariannol Lleiaf (gweler Adran 3).
- Os yw'r cynnig grant o fewn y trothwy Cymorth Ariannol Lleiaf, byddwch chi'n derbyn y cynnig ffurfiol a fydd yn cadarnhau manylion y grant a'i delerau ac amodau.
- Os ydych chi'n dymuno derbyn y grant bydd angen i chi lofnodi a dychwelyd y telerau ac amodau, ac yna bydd modd i chi ddechrau ar eich prosiect.
- Rhaid i chi beidio â dechrau eich prosiect / gwario unrhyw arian nes eich bod chi'n derbyn y cynnig grant ffurfiol.

Does dim gwarant y bydd pob cais yn cael ei gymeradwyo. Byddwch chi'n cael gwybod os bydd eich cais yn aflwyddiannus.

## 12. SUT BYDD Y GRANT YN CAEL EI DALU?

Unwaith y byddwch chi wedi derbyn llythyr cymeradwyaeth, bydd angen i chi dalu am yr holl gostau sydd wedi'u cynnwys yn eich prosiect cymeradwy ac yna cyflwyno'r wybodaeth ofynnol i hawlio'r grant.

Fel rheol, dim ond ar ddiwedd eich prosiect y bydd y taliad yn cael ei wneud, a hynny ar ôl cyflwyno'r canlynol;

- Anfonebau
- Cyfriflenni banc i dystiolaethu bod taliad wedi'i wneud i'r cyflenwr/contractwr
- Tystiolaeth ffotograffig
- Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag amodau arbennig a fydd yn cael eu cynnwys yn eich llythyr cynnig grant

Bydd taliadau grant;

- yn cael eu gwneud ar gyfer y gost leiaf – naill ai'r dyfynbris gwreiddiol neu bris yr

anfoneb derfynol
- yn cael eu talu i mewn i'r cyfrif banc rydych chi wedi'i nodi ar gyfer eich busnes

Fydd taliadau grant DDIM;
- yn cael eu gwneud ymlaen llaw
- yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyflenwyr/contractwyr
- yn cael eu gwneud am unrhyw gostau rydych chi wedi talu amdanyn nhw cyn dyddiad y cynnig grant (hyd yn oed ar ffurf adneuon ad-daladwy)

## 13. ALLBYNNAU

Bydd disgwyl i geisiadau llwyddiannus ddarparu tystiolaeth i gefnogi llwyddiant yr allbynnau a nodwyd yn y ffurflen gais. Gall methu â chydymffurfio arwain at y grant yn cael ei atal neu ei dynnu'n ôl a gall atal ceisiadau pellach.

## 14. CYMORTH A CHEFNOGAETH

Rydyn ni am roi cymorth i gynifer o'n busnesau â phosibl.

Os ydych chi'n ansicr a yw'ch prosiect yn gymwys neu os oes angen unrhyw help a chyngor arnoch chi ynglŷn â llenwi'r ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb neu'r ffurflen gais, yna cysylltwch â ni:

@ adfywio@rctcbc.gov.uk
☏ 01443 281124

Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ddisgresiwn llwyr dros delerau'r Grant Ehangu Busnes ac mae'n cadw'r gallu i ddiwygio'r meini prawf ar unrhyw adeg.

Fyddwn ni ddim yn gyfrifol am gyngor sydd wedi'i ddarparu gan drydydd parti a allai fod yn anghywir.